**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dr Phil George
Cadeirydd
Cyngor Celfyddydau Cymru
Plas Bute
Caerdydd,
CF10 5AL

26 Mawrth 2019

Annwyl Phil

Hoffwn ddechrau drwy eich llongyfarch ar flwyddyn lwyddiannus arall i Gyngor Celfyddydau Cymru yn ystod 2018-2019. Roedd eich llwyddiannau yn cynnwys:

- datblygiad parhaus y cynllun *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau*, gan gynnwys yr Ŵyl Dysgu Creadigol Genedlaethol a 32 o ysgolion yn arddangos eu gwaith yn Oriel Tate yn Llundain
- llwyddiant parhaus drwy ymestyn mentrau Celfyddydol a Iechyd, a llofnodi cynllun gweithredu ar y cyd gyda Conffederasiwn GIG Cymru
- blwyddyn hynod llwyddiannus 'Blwyddyn Cymru' yng Ngŵyl Lorient ym mis Awst
- lansio eich Strategaeth Rhyngwladol
- agor Tŷ Pawb fel canolfan gelfyddydol gymunedol yn Wrecsam
- llwyddiant Gorwelion Byw, a llwyddiant Alffa o fod y perfformwyr cyntaf yn yr iaith Gymraeg i ffrydio 1 miliwn o weithiau ar Spotify
- Sefydlu Anthem, Gwaddol er Cerddoriaeth Cymru.

Rwyf hefyd yn cymeradwyo llwyddiannau y nifer o sefydliadau a dderbyniodd gefnogaeth gennych yn y flwyddyn ddiwethaf, i gynnwys:

- *Home, I'm Darling* a *The Assassination of Katie Hopkins* gan Theatr Clwyd
- *Nyrsys* gan Theatr Genedlaethol Cymru
- The Olivier Award i Theatr y Sherman
- Artes Mundi 8
- Taith Cerddorfa Genedlaethol y BBC o amgylch Tsieina
- Llwyddiant Theatr Hijinx wrth ennill Gwobr Ryngwladol The Stage
- Taith y Cwmni Dawns Cenedlaethol o amgylch Yr Almaen a'r Swistir.

Rwy'n edrych ymlaen at barhad y gwaith hwn yn ystod y flwyddyn a ddaw.

Rwy'n parchu eich statws elusennol a'r ffaith bod gennych Siarter Brenhinol, a'r angen i Gyngor Celfyddydau Cymru weithredu'n annibynnol o ddydd i ddydd ac wrth gymryd penderfyniadau unigol ynghylch cyllido. Fodd bynnag, fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, dylai amcanion Cyngor y Celfyddydau adlewyrchu polisïau Llywodraeth Cymru. Mae'r llythyr hwn yn pennu nifer o flaenoriaethau yr hoffem ichi eu hystyried wrth baratoi eich Cynllun Gweithredol ar gyfer 2019-20 ac yn y blynyddoedd dilynol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Blaenoriaethau

Yn ogystal â'i waith craidd, fel y'i amlinellir yn ei Siarter, mae fy mlaenoriaethau ar eich cyfer yn ystod y flynyddoedd nesaf wedi eu hamlinellu yn Atodiad 1. Mae Atodiad 2 yn cadarnhau lefel y cyllid Grant fydd Llywodraeth Cymru yn ei roi ichi ar gyfer 2019-20. Darperir ffigyrau ar gyfer 2020-21 a 2021-22 maes o law.

Mae cyd-destun strategol ein gwaith yn ystod y blynyddoedd o’n blaen yn debyg i 2018-19. Mae strategaethau perthnasol y Llywodraeth, gan gynnwys 'Ffyniant i Bawb', 'Golau yn y Gwyll', Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'n Cynllun Gweithredu Economaidd - pob un ohonynt yn nodi fframwaith clir ar gyfer gweithio y dylid ei gynnwys yn eich Cynllun Gweithredol.

Datblygiad pwysig yn ddiweddar yw'r penderfyniad gan fy nghydweithwraig Eluned Morgan, Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol, i ddatblygu strategaeth newydd ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol. Mae'r Gweinidog wedi ei wneud yn glir ei bod yn disgwyl i Gyngor y Celfyddydau, drwy waith ei dîm rhyngwladol Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, chwarae rhan bwysig yn natblygiad y strategaeth hon. Beth bynnag yw canlyniadau'r trafodaethau dros ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd, ni fydd Cymru yn troi ei chefn ar y byd ac ar ein cymdogion agosaf yn yr UE. Yn y cyd-destun hwn, mae gan sector y celfyddydau swyddogaeth allweddol o helpu i hyrwyddo Cymru, ac o greu cyfleoedd newydd economaidd a diwylliannol.

Rwyf hefyd yn gweld y pwyslais newydd ar gydraddoldeb yn eich Cynllun Corfforaethol *'Er Lles Pawb',* a phwysigrwydd cyrraedd a chysylltu â chynulleidfa ehangach yn eich gwaith, boed hynny fel cynulleidfa neu drwy gymryd rhan. Rwy'n croesawu'r ymrwymiad hwn. Fel chithau, rydym yn teimlo bod gormod o gymunedau yng Nghymru yn cael eu hatal rhag mwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau. O fewn cyd-destun deddfwriaeth Cenedlaethau'r Dyfodol, rwyf yn disgwyl i'ch dull o gysylltu a chynnwys pawb fod yn benodol a chlir.

Dylech gynnwys yr holl gamau uchod yn eich Cynllun Gweithredu drafft a dylai Llywodraeth Cymru ei dderbyn gennych cyn gynted a phosib er mwyn cymeradwyo'r amcanion, y targedau a'r dangosyddion perfformiad perthnasol o fewn y cynllun.

Fe wyddoch am awydd Llywodraeth Cymru i weld partneriaethau a chyrff a noddir yn symud tuag at gylch gwaith Tymor y Llywodraeth. O fewn y cyd-destun hwn, hoffem ichi ystyried y llythyr hwn fel sail i'n perthynas tan ddiwedd y Tymor Llywodraeth presennol yn 2021.

Rwyf yn disgwyl i'r berthynas rhyngom fod yn un sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch o'r ddwy ochr ac ar gyfathrebu agored a gonest. Rwy'n edrych ymlaen at weld hyn yn parhau ac at ddysgu mwy am eich gwaith yn ystod y flynyddoedd a ddaw o'ch Cynllun Gweithredol.

Yn gywir

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

**Atodiad 1: Yr hyn y bydd y prosiect yn ei gyflawni**

## **1. Unedig a Chysylltiedig**

*"Ein nod yw creu cenedl ble y mae pobl yn ymfalchïo yn eu cymunedau, yn yr hunaniaeth Gymreig a'r iaith Gymraeg, ac yn ein lle yn y byd."*

Mae gan ein sefydliadau diwylliannol y gallu i helpu a grymuso pobl o bob cefndir i gyfrannu at y bywyd diwylliannol, ac i helpu gyda'r broses o greu cymunedau cydlynol. Hoffem i Gyngor y Celfyddydau:

- Parhau i sicrhau bod ein buddsoddiad yn galluogi hyd yn oed mwy o bobl i gyfrannu at y celfyddydau, ac i fynd i'r afael â'r heriau sy'n rhwystro hyn.
- Parhau i gefnogi cyfleoedd diwylliannol i bobl ifanc.
- Parhau i annog a datblygu cyfraniad y sector celfyddydau at *'Cyfuno' Creu cyfleoedd drwy ddiwylliant*, ac os yn bosibl ein helpu i sicrhau bod y rhaglen hon yn datblygu ac yn ehangu.
- Annog awdurdodau lleol i barhau â'r gefnogaeth i wasanaethau, prosiectau a chanolfannau celfyddydol lleol, ac i fentrau cenedlaethol megis ensemble cenedlaethol ieuenctid.
- Parhau i ddatblygu a hyrwyddo'r celfyddydau yn yr iaith Gymraeg a thrwy'r Gymraeg.
- Hyrwyddo swyddogaeth y celfyddydau wrth gefnogi adfywio yn seiliedig ar le, gan gynnwys cyfleoedd i gefnogi prosiectau mawr megis Prifddinas-ranbarth Caerdydd a Bae Abertawe.

Mae gan Gyngor y Celfyddydau ran allweddol i'w chwarae i helpu Cymru i fod yn genedl mwy creadigol, drwy gynnig cyfleoedd diwylliannol i bobl o bob cefndir. Hoffem i chi:

- Annog cyfranogiad mewn gweithgareddau diwylliannol, a'i gael i gyrraedd mwy o bobl o amrywiol gynulleidfaoedd, ac annog sefydliadau celfyddydol i sicrhau bod mwy o bobl o gymunedau lleiafrifol a grwpiau difreintiedig yn gweld eu gwaith.
- Cefnogi'r gwaith parhaus o ddichonoldeb creu Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol.
- Parhau i eirioli i awdurdodau lleol gefnogi addysg gerddorol, a ble'n bosibl helpu pobl i ddarparu'r argymhellion ar gyfer "*Taro'r Tant:* Ymchwilio i Gyllid a Mynediad i Addysg Gerddorol.

Mae gan Gyngor y Celfyddydau ran bwysig i'w chwarae yn arddangos ein diwylliant bywiog a'n hiaith i gynulleidfa **ryngwladol**, a helpu'r sector celfyddydau i ddatblygu marchnadoedd newydd.

- Gweithio gyda'r celfyddydau a swyddogion cysylltiadau rhyngwladol i lywio strategaeth newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol, yn benodol ar ffyrdd y gall y sector celfyddydol helpu i hyrwyddo Cymru, a defnyddio cyfleoedd economaidd dramor.

- Cynnal a datblygu cysylltiadau rhyngwladol cyfredol, gan gynnwys y rhai hynny o fewn yr UE ac India; ein helpu i sicrhau bod Cymru yn cael cynrychiolaeth deg yn y mentrau diwylliannol perthnasol gan y DU dramor.
- Parhau i gefnogi memorandwm dealltwriaeth ddiwylliannol Llywodraeth Cymru gyda Tsieina
- Cyfrannu at Flwyddyn Ieithoedd Brodorol UNESCO

**2. Cymru uchelgeisiol sy'n dysgu**

*"Ein nod yw creu awydd i ddysgu ym mhawb drwy gydol eu bywydau"*

Gall sefydliadau diwylliannol ehangu gorwelion pobl a'u gwneud yn fwy uchelgeisiol, gan gynnig cyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol. Mae gennych swyddogaeth bwysig o gefnogi pobl ifanc i wneud y gorau o'u potensial ac i annog 'dysgu am oes'. Hoffem ichi:

- Cefnogi pobl ifanc i wneud y gorau o'u potensial ac annog dysgu am oes, drwy barhau i arwain ar y fenter lwyddiannus *Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau,* a thrwy helpu i ddatblygu Cwricwlwm newydd i Gymru, yn benodol y Maes Dysgu a Phrofiad' 'Celfyddydau Mynegiannol'.
- Parhau i gefnogi datblygiad 'Anthem - Cronfa Gerdd Cymru', i helpu'r sefydliad hwn i fod yn hollol effeithiol.

**Cymru ffyniannus a diogel**

*"Ein nod fel economi Cymru yw darparu ffyniant unigol a chenedlaethol tra'n lledaenu cyfleoedd a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb..."*

Mae gan y celfyddydau ran bwysig i'w chwarae wrth gefnogi pobl a busnesau i sbarduno llewyrch. Felly hoffwn eich annog i gydweithio â sefydliadau eraill, gan gynnwys Gyrfa Cymru a Sgiliau Creadigol a Diwylliannol i wella llwybrau gyrfaoedd a mynd i'r afael â'r gofynion ar gyfer sgiliau arbenigol o fewn y sector celfyddydol. Hoffem i chi:

- Dilyn egwyddorion ein *Contract Economaidd*, yn cynnwys twf, gwaith teg, iechyd a sgiliau yn y gweithle a rheoli olion traed carbon. Mae'r Contract Economaidd yn llunio rhan o'n Cynllun Gweithredu Economaidd, ac mae'n ddull pwysig o ddarparu buddsoddiad cyhoeddus gyda phwrpas cymdeithasol.
- Cydweithio â phartneriaid perthnasol i hyrwyddo y gyrfaoedd sydd ar gael yn y celfyddydau, a datblygu mwy o brentisiaethau, hyfforddeiaethau a chyfleoedd mentora.
- Parhau i ddatblygu y 'Rhaglen Wytnwch' a gwasanaethau eraill wedi'u teilwra i helpu eich cleientiaid refeniw, ac eraill o bosibl, i wella eu sgiliau busnes a marchnata, ac arferion da wrth lywodraethu.
- Parhau i weithio i gynyddu'r cyllid o ffynonellau allanol i leihau y graddau y mae'r sector celfyddydol yn dibynnu ar gymorthdaliadau cyhoeddus, gan gynnwys Cymorth Grant Llywodraeth Cymru. Fel rhan o hyn, gweithio gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i weithredu yr argymhellion o fewn adroddiad Ymchwiliad Cenedlaethol y Cynulliad ar *'Cyllid heblaw cyllid cyhoeddus i'r celfyddydau'.*

**Cymru Iach ac Egnïol**

*"Ein nod yw gwella iechyd a llesiant yng Nghymru, i unigolion, teuluoedd a chymunedau...ac i newid ein dull o weithio o lesiant i atal".*

Gall y sector celfyddydol gefnogi ymdrechion ehangach i greu yr amodau iawn ar gyfer iechyd a llesiant gwell a mwy o weithgarwch corfforol a chynyddu cynhwysiant cymdeithasol drwy gynnig cyfleoedd i bobl oedrannus a phobl sydd â chyflyrau corfforol a meddyliol i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol. Hoffem i chi:

- Ychwanegu at Astudiaeth Fapio y Celfyddydau mewn Iechyd yng Nghymru, drwy weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Conffederasiwn y GIG a'r sector celfyddydol i (i) wella'r dystiolaeth sylfaen ar gyfer ymyraethau 'y celfyddydau mewn iechyd', a (ii) uwchraddio'r ymyraethau hynny sydd wedi bod yn effeithiol wrth wella iechyd a llesiant pobl.
- Cyfrannu at y blaenoriaeth trawsbynciol 'iechyd meddwl gwell' drwy gefnogi Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Iechyd gyda presgripsiynu cymdeithasol a mentrau perthnasol eraill.

**Atodiad 2: Cymorth ariannol**

Bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi'r Cymorth Grant isod i Cyngor Celfyddydau Cymru yn 2019-20 i gyflawni'r blaenoriaethau a amlinellir yn y llythyr hwn. Mae ffigurau wedi'u cynllunio wedi'u darparu hefyd ar gyfer 2020-21(Cyfalaf yn unig). Bydd lefelau cyllido ar gyfer y dyfodol yn cael eu cadarnhau yn ystod proses flynyddol arferol Cyllideb Llywodraeth Cymru.

**Gwariant**

| CYNGOR Y CELFYDDYDAU | Cyllideb 2019-20 £'000 | Cynllun cyllidebol 2020-21 £'000 |
|---|---|---|
| Refeniw : Costau Rhedeg /Gwariant Cyfredol | 31,227 | - |
| Dibrisiant* | 119 | - |
| Gwariant Cyfalaf** | 355 | 355 |
| **Cyfanswm** | **31,701** | **355** |

Mae'r dadansoddiad rhwng gwariant a chostau rhedeg i'w cadarnhau.

** Mae dibrisiant yn eitem nad yw'n arian parod ac nid yw ar gael i'w dynnu i lawr yn ystod y flwyddyn*
*** Wedi'i neilltuo o fewn Gwariant Cyfalaf: £300,000 i Ganolfan Mileniwm Cymru*

**CYFANSWM Cymorth Grant 2019-20**

| |
|---|
| **£31,701,000** |

**Telerau ac Amodau'r Cymorth Grant:**

Mae cytundeb cyllido Cyngor y Celfyddydau gyda Llywodraeth Cymru (y ddogfen Fframwaith) yn nodi manylion y berthynas noddi a'r telerau a'r amodau sy'n gysylltiedig â'r cymorth grant y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i Gyngor Celfyddydau Cymru fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Darperir cyllid Cymorth Grant i Gyngor y Celfyddydau o dan Adran 61 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r ddogfen Fframwaith hefyd yn nodi amryfal ofynion gweithredol ac yn cyfeirio at ganllawiau a pholisïau o eiddo'r llywodraeth y mae angen i Gyngor y Celfyddydau gydymffurfio â hwy, yn ychwanegol at ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau ei hun fel corff sydd â Siarter, fel Elusen Gofrestredig, a sefydliad cyhoeddus yng Nghymru. Fel y nodir yn y Ddogfen Fframwaith, Is-adran Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth Llywodraeth Cymru (yr Is-adran Celfyddydau) yw'r adran sy'n noddi Cyngor Celfyddydau Cymru ac sy'n monitro ei gynnydd yn erbyn y prif dargedau a'r cerrig milltir drwy gyfarfodydd chwarterol.